

Arweinwyr treftadaeth yn datgelu eu llwybr at lwyddiant digidol

11/08/2021



At the Hunterian Museum Credit: The Hunterian 364

Cyn rhyddhau adnodd digidol newydd am ddim, rydym yn siarad â thri arweinydd treftadaeth i ddarganfod rhai o gynhwysion allweddol arweinyddiaeth ddigidol.

Cymerodd pob un ran yn Arwain y Sector, cwrs datblygiad proffesiynol mewn arweinyddiaeth ddigidol a ariannwyd drwy ein menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth, rhwng mis Mai 2020 a dechrau 2021.

Fe'i gynhaliwyd gan arbenigwyr digidol a diwylliant Culture24 mewn partneriaeth â Golant Innovation/The Audience Agency, gyda mewnbwn gan gynghorwyr arbenigol gan gynnwys menter One by One Prifysgol Caerlŷr a Dr Nick Winterbotham.

Cwblhaodd arweinwyr o 14 o sefydliadau treftadaeth canolig i fawr yn y DU y cwrs – a chawsom ganlyniadau gwych. Cyn bo hir, bydd dysgu allweddol o'r cwrs ar gael i'r cyhoedd mewn adnodd digidol newydd, o'r enw 'Llwybr'.

Dysgon ni lawer iawn am heriau a chyfleoedd arweinyddiaeth ddigidol hyddysg yn y sector treftadaeth

- *Anra Kennedy, Prif Swyddog Gweithredol Culture24*

Dywedodd Anra Kennedy, Prif Swyddog Gweithredol Culture24: "Dysgon ni lawer iawn am heriau a chyfleoedd arweinyddiaeth ddigidol hyddysg yn y sector treftadaeth, yn enwedig pwysigrwydd meddylfryd, drwy weithio gyda'r garfan hon o uwch arweinwyr.

"Rydym yn falch iawn o fod yn rhannu rhai o'u profiadau a'r meddylfryd sy'n sail i'r cwrs yn ein adnodd 'Llwybr' newydd, a fydd, gobeithio, yn helpu llawer o arweinwyr treftadaeth eraill a'u staff i gael y gorau o ddigidol."

Bydd adnodd arweinyddiaeth ddigidol newydd yn cael ei lansio yn y weminar am ddim



Credit: The People's History Museum

Bydd adnodd Llwybr Culture24 yn helpu arweinwyr i ofyn:

- Beth mae 'digidol' ac 'ddigidol lythrennog' yn ei olygu i'm sefydliad?
- Pa fath o sgiliau digidol sydd gan fy staff a'm gwirfoddolwyr ac sydd eu hangen?
- Sut ydw i'n dechrau adeiladu hyder a chapasiti digidol fy nhîm?
- Pa rôl y mae diwylliant digidol yn ei chwarae mewn arweinyddiaeth?

Bydd y Llwybr yn cael ei lansio ar weminar ['Myfyrio ar arweinyddiaeth ddigidol ar gyfer treftadaeth'](#) Culture24 ar **1 Medi, 4-5pm**.

Bydd y tîm a gyflwynodd Arwain y Sector, ynghyd â rhai o'r arweinwyr treftadaeth a gymerodd ran, yn archwilio'r nodweddion y mae arweinyddiaeth ddigidol lythrennog yn gofyn amdanynt ac yn rhannu eu profiadau o feithrin hyder a chapasiti digidol yn eu sefydliadau.

Mynnwch eich tocyn am ddim a dysgwch sut y gallwch ddefnyddio digidol i symud tuag at ddyfodol mwy gwydn a chreadigol.

Cwrdd â'r arweinwyr

Cyn rhyddhau'r Llwybr, buom yn siarad â thri o'r arweinwyr i glywed am eu profiadau.

Dywedasant wrthym sut a pham yr oeddent am ddefnyddio digidol yn eu sefydliadau a pha rôl yr oedd eu harweinyddiaeth yn ei chwarae wrth gefnogi'r nifer sy'n manteisio arno ymhlith staff a gwirfoddolwyr.

Darparu'r darlun ehangach



Katy Ashton

Katy Ashton, Cyfarwyddwr Amgueddfa Hanes y Bobl, Manceinion: Roeddwn am helpu'r amgueddfa i ddeall yn well y wybodaeth ddigidol a gasglwn, a defnyddio'r wybodaeth hon i werthuso ein heffaith a helpu i lywio ein penderfyniadau. Yr hyn a ddaeth yn amlwg yn gyflym oedd faint o ddata oedd ar gael i ni o bob rhan o'r amgueddfa. Gwnaethom adeiladu ar yr hyn yr oeddem eisoes yn ei gasglu drwy nodi sawl ffynhonnell newydd o ddata – gan gynnwys cofrestru tocynnau ar-lein, rhoi a digwyddiadau.

Roeddem yn gallu delweddu a rhannu'r wybodaeth honno'n fewnol mewn ffyrdd defnyddiol – gan gynnwys ar gyfer ein Bwrdd Ymddiriedolwyr – i helpu i ddathlu llwyddiant, deall ein cynulleidfaoedd a meddwl am raglennu, cyfathrebu, codi arian, strategaeth a mwy yn y dyfodol.

Nid oes angen i chi gael cymhwysedd digidol penodol, cyn belled â'ch bod yn gallu cefnogi'r sgiliau a'r galluoedd hynny ar draws y tîm.

- *Katy Ashton*

Fel arweinydd sy'n ddigidol hyddysg, darganfyddais mai fy rôl yn hyn oedd creu'r amodau i weddill y tîm fod yn fwy hyderus wrth gasglu a dehongli'r wybodaeth ddigidol. Roedd hyn yn golygu gofyn cwestiynau da a darparu lle i bobl arbroti a phrofi syniadau. Roedd hefyd yn golygu cadw pobl i ganolbwyntio ar y darlun ehangach o pam ein bod yn casglu'r data.

Rwy'n credu y gallai arweinwyr treftadaeth boeni am yr angen i fod yn arbenigwyr – neu o leiaf fod yn wybodus – am bob agwedd ar waith digidol. Ond nid dyma fy mhrofiad i. Nid oes angen i chi gael cymhwysedd digidol penodol, cyn belled â'ch bod yn gallu cefnogi'r sgiliau a'r galluoedd hynny ar draws y tîm.

Newid canfyddiadau am ddigidol



Christine Luxton

Christine Luxton, Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Suffolk: Fe wnaeth Arwain y Sector fy helpu i weld digidol o ran y newid sefydliadol y gall ei greu, yn hytrach nag fel 'prosiect TG' neu linell gyllideb ar gyfer offer, a oedd wedi bod i ni o'r blaen. Mae Digital for Suffolk Wildlife Trust yn ymwneud â dod â'r sefydliad at ei gilydd a dileu'r rhwystrau a'r rhwystredigaethau y mae staff a gwirfoddolwyr yn eu profi.

Mae gennym bobl yn gweithio ar draws Suffolk, yn aml mewn lleoliadau eithaf gwledig. Mae ein trawsnewidiadau parhaus allweddol yn cynnwys gwell cyfathrebu mewnol a mynediad at ddogfennau a rennir, ffyrdd cyffredin o weithio, mwy o hyder yn ein prosesau rheoli risg a, thrwy symud i systemau ar y we, mwy o wydnwch a hyblygrwydd. Gall staff weithio o'r swyddfa, o gartref neu o gab tractor!

Mae'r gwahaniaeth digidol yn ei wneud i'r ffordd rydym yn gweithio wedi dod yn ganolog i'n ffordd o feddwl, ac wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar ein pobl a'r natur rydym yn ei chefnogi.

- *Christine Luxton*

Mae'r gwahaniaeth digidol yn ei wneud i'r ffordd rydym yn gweithio wedi dod yn ganolog i'n ffordd o feddwl, ac wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar ein pobl a'r natur rydym yn ei chefnogi. Mae staff yn gyffrous ac yn cael eu buddsoddi mewn digidol nawr – maent yn deall sut y bydd yn eu helpu o ddydd i ddydd ac maent eisoes yn sylwi ar gyfleoedd ar gyfer y cam nesaf.

Fe wnaeth arwain y Sector hefyd fy helpu i 'berchnogi' digidol yn hyderus a'i wneud yn rhan o'n diwylliant a'm harweinyddiaeth. Ar ei fwyaf pwerus, mae angen i drawsnewid digidol fod yn ddull sefydliad cyfan. Fel Prif Swyddog Gweithredol, rwyf mewn sefyllfa unigryw i weld yr elusen yn ei chyfanrwydd, a hefyd i arwain drwy esiampl, gan groesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi amser ynddynt.

Goresgyn yr anhysbys



Giovanna Vitelli

Giovanna Vitelli, Pennaeth Casgliadau a Curadurol Amgueddfa Hunterian, Glasgow: Ein her yw pontio'r bwlch rhwng deall digidol fel 'rhywbeth arall' i gydnabod ei fod yn sail i lawer o'n syniadau a'n ffyrdd o weithio.

Rhan allweddol o hyn oedd deall yn gyntaf beth mae digidol yn ei olygu mewn gwirionedd – yn enwedig i'r Hunterian. Gofynnais i'n staff gwblhau archwiliad digidol, a oedd yn seiliedig ar fersiwn gymradwy o arolwg [Agweddau Digidol a Sgiliau treftadaeth \(DASH\) y Gronfa Dreftadaeth](#). Roedd hyn yn darparu fframwaith ar gyfer deall gwahanol feysydd digidol, yn datgelu sgiliau digidol sydd eisoes yn bodoli eisoes yn yr amgueddfa ac yn tynnu sylw at ein bylchau, gan ddarparu meincnodau defnyddiol.

Roedd yr arolwg yn bwydo i lefel ymwybyddiaeth ddigidol sy'n cynyddu'n fawr yn yr amgueddfa, sy'n galluogi llawer mwy creadigol a hyderus i 'feddwl yn uchel' am yr hyn y dylem ei wneud a'r hyn y gallwn ei wneud. Rydym yn teimlo'n fwy hyderus i fentro a threialu prosiectau newydd.

Mae'n debyg mai'r ffordd orau o ddisgrifio fy rôl arwain yw normaleiddio agwedd ddigidol ein gwaith a gwneud pob un ohonom yn ymwybodol o'n potensial i gyfrannu.

- *Giovanna Vitelli*

Mae'n debyg mai'r ffordd orau o ddisgrifio fy rôl arwain yw normaleiddio agwedd ddigidol ein gwaith a gwneud pob un ohonom yn ymwybodol o'n potensial i gyfrannu. Mae hyn yn cynnwys dosbarthu gwybodaeth, erthyglau, graffeg ac ati sy'n cysylltu'n uniongyrchol â rhai o'r heriau sy'n ein hwynebu. Mae gan hyn y fantais ychwanegol o'n cysylltu â mudiad mwy sy'n wynebu heriau tebyg (yn enwedig yn ystod y pandemig) – gan greu teimlad 'nad ydych ar eich pen eich hun'.

I mi, mae gwybod bod y bydysawd hwn o ddilynwyr tebyg yn bodoli wedi bod yn newid gêm. Rwyf wedi symud o rybudd a diffyg dealltwriaeth am beth yw digidol, i hyder newydd am hyrwyddo cymhwysedd digidol a llythrennedd hyd yn oed gan fy mod i fy hun yn dysgu'n barhaus o gysylltiadau yn fy sector. Mae fy mhrofiad yn cael ei barleinio gan yr hyn y mae'r Hunterian yn mynd drwyddo – goresgyn ofnau am yr anhysbys drwy adeiladu ein dealltwriaeth ddigidol, gam wrth gam.

Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i arweinwyr eraill?



Lapwing in Suffolk, Credit: Matthew Clarke

Katy Ashton: Roedd gweithio ochr yn ochr ag arweinwyr eraill i drafod ac archwilio digidol yn werthfawr iawn i mi yn ystod Arwain y Sector. Byddwn yn annog pob arweinydd i estyn allan at gyfoedion a dod o hyd i ffyrdd o ddsygu oddi wrth ei gilydd.

Christine Luxton: Nid oes angen i chi fod yn arbenigwr technegol! Canolbwyntiwch ar nodi eich anghenion sefydliadol ac yna caniatáu i'r atebion digidol ddilyn.

Giovanna Vitelli: Paratowch ar gyfer arbrofi a gwaith tîm, ac annog cydweithwyr i fedru, cymryd risgiau, rhannu gwybodaeth a chydweithio heb ofni bod yn 'llai abl' mewn digidol.

Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth

Mae ein menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth wedi'i chynllunio i fagu sgiliau digidol a hyder ar draws sector treftadaeth cyfan y DU. Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein holl gyfleoedd a'n harweiniad digidol drwy:

- ymweld â'r dudalen [Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth](#)
- cofrestru ar gyfer [ein cylchlythyr](#) a dewis 'digidol'



rddeb hefyd mewn ...

[Minder Kaur Athwal, ymddiriedolwr yn y Digital Skills for Heritage Trust Network. Credyd: Sarah Hayes.](#)

[Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth](#)



[Photo: © CITIZAN](#)



[dolwyr digidol](#)

[Developing digital leadership in heritage](#)